

Grangetown: Arglawdd Taffs Mead: Croesfan Sebra

Adroddiad Ymgynghori

Rhif y Project: CO17076

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 10/01/2018 a 24/01/2018.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fydd yn bosibl.

O'r 25 eiddo yr ymgynghorwyd arnynt a'r 2 hysbysiad safle a arddangoswyd ar y safle, derbyniwyd 3 ymateb unigol.

- 1 Yn cefnogi'r cynllun
- 2 Yn cefnogi'r cynllun, rhai yn cynnig sylwadau/awgrymiadau ychwanegol

Crynoir y pryderon a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir bwrw ymlaen gyda gweithredu'r cynllun, fel y nodir yn y cynllun ymgynghori.

Mater – Cais am derfyn cyflymder 20mya

“Diben fy e-bost yw gofyn i'r Cyngor ystyried terfyn cyflymder 20mya ar y ffordd hefyd”

“Cydnabyddir yn gyffredinol bod terfyn cyflymder 30mya yn rhy uchel ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd y ddinas, yn benodol oherwydd bod y cyflymderau gwirioneddol fel arfer yn uwch na hyn. Dylai'r ardal gyfan fod o leiaf 20mya (Clare Rd/Pendyris St/Penaerth Rd/Arglawdd Taffs Mead a'r holl strydoedd sydd wedi'u ffinio ganddynt). Byddai'n fwy diogel i bawb, ac yn rhatach, pe bai'n llai na 20mya/30mya”

Mae gan y Cyngor ymagwedd dinas gyfan at gefnogi cyflymderau is, yn benodol lle mae pobl yn byw. Yn dilyn cyflwyniad y cynllun peilot 2 flynedd yn Cathays a Phlasnewydd, mae terfynau cyflymder 20mya newydd wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar yng Nglan-yr-Afon (Pontcanna) a rhannau o Dreganna.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn datblygu cynllun i gyflwyno parth 20mya yn ardal Grangetown a fydd yn cynnwys Arglawdd Taffs Mead a'r strydoedd cyfagos, a chaiff hwn ei roi ar waith pan fydd arian ar gael yn y dyfodol.

Mater – Rhwystrau ymwithiol arfaethedig

Nododd y preswlydd fod “rhwystrau ymwithiol yn beryglus i feicwyr a'u bod yn ddiangen”.

Bydd y rhwystrau ymwithiol yn rhoi pellter croesi llai i gerddwyr ac yn galluogi cerddwyr a gyrwyr cerbydau sy'n nesáu i weld ei gilydd yn well.

Mae arsylwadau safle wedi cadarnhau bod cryn nifer o geir yn cael eu parcio yn y cilfachau preswylwyr cyfagos a'r cilfachau talu ac arddangos. Byddai creu rhwystrau ymwithiol yn sicrhau y byddai cyn lleied o le parcio â phosibl yn cael ei golli trwy osod y groesfan sebra gan leihau'r effaith andwyol ar y preswylwyr lleol a'u hymwelwyr.

Mater – Diffyg cyfleusterau i gerddwyr

Nododd y preswilydd, "Y croesfannau naturiol allweddol i ganol y ddinas i bobl sy'n cerdded neu'n beicio yw ym mhen dwyreiniol Merches Gardens (sef yr unig safle lle rydych yn cynnig gosod croesfan), cornel beryglus Pendyris St/Arglawdd Taffs Mead a chyffordd Pentre St ag Arglawdd Taffs Mead."

Mae'r arian a sicrhawyd ar gyfer y cynllun hwn yn ddigonol i greu croesfan ger Merched Garden yn unig, ac ni fydd modd estyn y cynllun ar hyn o bryd.

Dengys asesiad cychwynnol o gyffyrdd Pentre St/Arglawdd Taffs Mead a Pentre St/Arglawdd Taffs Mead y bydd angen ymchwilio ymhellach er mwyn asesu a ellir cyfiawnhau unrhyw fesurau diogelwch ar y ffyrdd. Os bydd angen mesurau, caiff y rhain eu hychwanegu at ein rhaglen i'w rhoi ar waith yn y lleoliad hwn pan fydd arian ar gael. Bydd y lleoliad yn cael ei gynnwys yn ymchwiliad y Cyngor i'r holl faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch ar y ffyrdd a hygyrchedd yn y Ddinas. Rhagwelwn y bydd yr Adroddiad Ymchwiliad Ardal ar gyfer 2018 ar gael ar wefan y cyngor (www.caerdydd.gov.uk/ProjectauTrafnidiaeth) neu ar gais ar ddechrau 2019, pan all trigolion weld canlyniad yr ymchwiliadau ac unrhyw gamau gweithredu cynlluniedig.

Mater – Arafu traffig

Nododd preswilydd, "Rhaid i'r twmpathau cyflymder rydych yn eu cynnig fod yn rhai go iawn sy'n wirioneddol yn arafu traffig. "Mae'r rhai twmpathau/clustogau arafu sydd yn eu lle ar hyn o bryd ar hyd Pendyris St yn beryglus iawn i feicwyr, ac yn gyffredinol nid ydynt yn effeithiol."

Bydd dyluniad y byrddau arafu'n cynnwys graddiannau ramp 1 mewn 14, gyda llwyfan 6m o hyd a ramp 75mm o uchder.

Mae'r mesurau arafu traffig presennol ar Pendyris St yn cynnwys clustogau arafu, ac nid ydym yn cynnig gosod clustogau arafu ar Arglawdd Taffs Mead Y mesurau arafu traffig a gynigir ar gyfer Arglawdd Taffs Mead fydd byrddau arafu lled llawn. Mae'r rhain yn fwy effeithiol wrth leihau cyflymderau cerbydau na chlustogau arafu.

Mater – Llif traffig

Nododd y preswilydd, "Rwy'n credu mai'r broblem sylfaenol yma yw bod Taffs Mead/Pendyris yn cael eu defnyddio gan ormod o lawer o geir fel llwybr tarw. Nawr yn ddelfrydol, pe bai'n gallu bod yn ardal i draffig lleol yn unig, neu pe bai modd rhwystro pennau'r strydoedd mewn rhyw ffordd, byddai hynny'n wych."

Mae'r mater hwn y tu hwnt i gwmpas y project hwn; fodd bynnag, byddwn yn trefnu i'r lleoliad hwn gael ei adolygu yn ystod yr Ymchwiliad Ardaloedd Blynyddol i bryderon diogelwch ar y ffyrdd a hygyrchedd. Rhagwelwn y bydd yr Adroddiad Ymchwiliad Ardal ar gyfer 2018 ar gael ar wefan y cyngor (www.caerdydd.gov.uk/ProjectauTrafnidiaeth) neu ar gais ar ddechrau 2019, pan all trigolion weld canlyniad yr ymchwiliadau ac unrhyw gamau gweithredu cynlluniedig.

Mater – codi ramp

Dywedodd preswylydd y “dylai'r groesfan sebra fod fel honno ar Clare Road, a'r llethr wedi ei wneud o rwber neu ddeunydd arall gwydn nad ydy e'n achosi dirgryniadau fel y mae'r twmpathau ffordd tarmac presennol, yn ogystal ag arafu'r traffig.”

Dewisir y deunydd ar gyfer adeiladu'r ramp yn ystod y cam dylunio manwl; fodd bynnag, rydym yn debygol o greu rampiau tarmac ar y safle yn y lleoliad hwn yn hytrach na rampiau rwber wedi eu creu ynghynt. Mae dyrchafiad bychan unionsyth ar waelod y rampiau rwber, ac nid ar y rhai tarmac; mae gyrru ar y ramp yn llyfnach nac ar y rampiau wedi eu creu eisoes ac felly mae'r rampiau tarmac yn llai swllyd ac yn dirgrynu llai. Byddwn yn cynghori mai'r twmpathau ffordd yw'r unig ddull sydd ar gael i ni er mwyn gostwng cyflymder y cerbydau'n effeithiol er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd er budd defnyddwyr y ffordd sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd swm a/neu ddirgrynu wrth i gerbydau mawr yrru dros y rampiau.

Mater – cyflwr ramp

Dywedodd preswylydd: “Mae angen ailddylunio ac ail greu'r twmpath ffordd tua'r gogledd o'r groesfan sebra. Mae wedi dirywio ac ni chaiff ei gynnal.”

Mae'r pryderon ynghylch cyflwr y ramp presennol wedi eu hanfon at y tîm Rheoli Asedau. Rydym wedi gofyn iddynt archwilio'r ramp a gwneud unrhyw waith trwsio neu adnewyddu, yn ôl yr angen.

Mater - gorfodi

Rheoli traffig gwell ar Ddigwyddiadau Mawr Gemau Rygbi Rhyngwladol yn y Stadiwm. Mae gyrwyr wedi parcio ar y gerddi yn Merches Gardens, lle na chaniateir hyd yn oed chwarae pêl! A dylid bod yn fwy trylwyr wrth gyflwyno trwyddedau parcio ar gyfer yr ardal oherwydd bod llefydd parcio bellach yn brin iawn.

Mae'r sylwadau ynghylch gorfodi cyfyngiadau parcio wedi eu hanfon i'r Tîm Gorfodi Sifil at eu sylw.

Cefnogaeth ar gyfer y cynllun


Nid wyf yn gwrthwynebu'r groesfan sebra. Mae'n gwneud synnwyr oherwydd ei bod hi weithiau'n anodd dod o hyd i le diogel i groesi gyda cheir yn mynd heibio ar y ddwy ochr.

Mae'r syniad am y groesfan sebra yn un da a bydd cerddwyr gryn dipyn yn ddiogelach.

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme on the revised plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy of the post-consultation report.